## CYNGOR CAERDYDD

**COFNODION**

**CYFARFOD Y CABINET: 26 HYDREF 2023**

| | |
|---|---|
| Yn Bresennol | Y Cynghorydd Huw Thomas (Arweinydd)<br>Y Cynghorwyr Peter Bradbury/ Julie Sangani (rhannu swydd)<br>Y Cynghorydd Jen Burke<br>Y Cynghorydd Dan De'Ath<br>Y Cynghorwyr Norma Mackie/ Ash Lister (rhannu swydd)<br>Y Cynghorydd Sarah Merry<br>Y Cynghorydd Lynda Thorne<br>Y Cynghorydd Chris Weaver<br>Y Cynghorydd Caro Wild |
| Arsylwyr: | Y Cynghorydd John Lancaster<br>Y Cynghorydd Rhys Livesy<br>Y Cynghorydd Joe Carter |
| Hefyd: | |
| Swyddogion: | Sarah McGill, Cyfarwyddwr Corfforaethol<br>Chris Lee, Swyddog Adran 151<br>Richard Crane, Swyddog Monitro Dros Dro<br>Claire Deguara, Swyddfa'r Cabinet |
| Ymddiheuriadau: | Y Cynghorydd Russell Goodway |

**149 Y DIWEDDARAF AR NEUADD DEWI SANT**

***Ni chaiff Atodiad 3 yr adroddiad hwn ei gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig o'r math a ddisgrifir ym mharagraffau 14 ac 16 Rhan 4 Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.Yn holl amgylchiadau'r achos, ystyrir bod budd y cyhoedd o gynnal yr eithriad yn bwysicach na budd y cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth.***

***Dosbarthwyd llythyrau Craffu cyhoeddus a chyfrinachol.***

Ystyriodd y Cabinet adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am brydles arfaethedig Neuadd Dewi Sant i AMG yn dilyn cau'r adeilad yn orfodol yn ddiweddar oherwydd presenoldeb planciau RAAC (Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cydnerth).

Mynegwyd boddhad y Cabinet y bydd y ddyletswydd ystyriaeth orau yn cael ei chyflawni gan y les i AMG, gan nodi yr ystyriwyd bod gallu'r Cyngor i ysgwyddo'r atebolrwydd parhaus ar gyfer Neuadd Dewi Sant a rhoi'r buddsoddiad angenrheidiol, o ystyried yr hinsawdd ariannol bresennol, y tu hwnt i fodd y Cyngor.

Nodwyd yr effaith ar staff, ac amlygwyd yr ymgysylltwyd yn llawn â staff ac Undebau Llafur. Diolchodd yr Arweinydd i'r staff am eu gwaith dros y blynyddoedd a nododd eu hymroddiad parhaus i Neuadd Dewi Sant.

Nodwyd ymrwymiad y Cyngor i ailagor Neuadd Dewi Sant, fodd bynnag, nodwyd bod yr amserlen ar gyfer ailagor yn ddibynnol ar y gallu i gael contractwyr i ymgymryd â'r gwaith o ystyried y galw ledled y DU. Yn ogystal, ailddatganwyd ymrwymiad y Cyngor i'r rhaglen glasurol yn Neuadd Dewi Sant a phwysleisiwyd bod hyn yn rhwymedigaeth gytundebol o dan les AMG.

PENDERFYNWYD:

1) Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Ddiwylliant, Parciau a Digwyddiadau, y Swyddog Adran 151, a'r Swyddog Cyfreithiol i orffen trafodaethau gydag AMG a rhanddeiliaid perthnasol eraill er mwyn:

    a. Cwblhau a ffurfio Cytundeb Amodol ar gyfer Prydles gydag AMG ar sail yr egwyddorion a nodir yn y Cytundeb Amodol drafft ar gyfer Prydles a nodir yn **Atodiad Cyfrinachol 3**;

    b. Ymrwymo i'r brydles a'r dogfennau cysylltiedig fel y nodir yn **Atodiad Cyfrinachol 3** ar ôl bodloni amodau'r Cytundeb Amodol i Brydlesu;

    c. Cwblhau'r cytundeb gwerthu busnes gydag AMG ar gyfer Neuadd Dewi Sant yn seiliedig ar yr egwyddorion a nodir yn y cytundeb gwerthu busnes drafft fel y nodir yn **Atodiad Cyfrinachol 3** ar ôl bodloni'r amodau yn y Cytundeb Amodol i Brydlesu;

2) Nodir bod Neuadd Dewi Sant yn dal ar gau a'r canlyniadau cysylltiedig a nodir yn yr adroddiad hwn hyd nes y bydd AMG yn bodloni'r amodau o fewn y Cytundeb Amodol i Brydlesu.

3) Yng ngoleuni'r uchod, mae'n annhebygol y bydd pob gweithiwr yn trosglwyddo i AMG o dan Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 fel y rhagwelir yn adroddiad y Cabinet ym mis Gorffennaf 2023. O ganlyniad, nodir strategaeth arfaethedig ymgysylltu â staff y Cyngor i reoli cau Neuadd Dewi Sant fel y nodir yn yr adroddiad hwn.